# Taflen adnoddau Gwers 1

## Cyflwyno'r crwca, neu 'the hunchback'

**Amcan Dysgu: Canolbwyntio ar sut gaiff y crwca ei gyflwyno yn y gerdd**

1. Mae'r crwca'n cael ei gysylltu ag iaith sy'n ymwneud â chŵn drwy'r gerdd.

| | |
|---|---|
| "Slept at night in a dog kennel<br>But nobody chained him up." | Mae syniad y "cadwyni" ("chains") sy'n cael ei gyflwyno yma'n awgrymu bod cymdeithas yn ei gaethiwo'n drosiadol. Mae'r wybodaeth ei fod yn cysgu mewn cwb ci'n dangos nad yw'n cael ei drin/nad yw'n ei weld ei hun fel bod dynol. |
| "And the old dog sleeper<br>Alone between nurses and swans" | |
| "Had followed the hunchback<br>To his kennel in the dark." | |

Beth mae'r iaith y mae'r bardd wedi'i dewis yn dweud wrthym am y ffordd y mae pobl eraill yn gweld y crwca? Llenwch y ddau flwch gwag uchod.

2. Yn y trydydd pennill, mae dwy gymhariaeth yn cael eu defnyddio am y crwca. Llenwch y tabl â gwybodaeth am y cymariaethau hyn. Sut maen nhw'n cyflwyno perthynas y crwca â'r parc?

| **Cymhariaeth** | **Effaith** |
|---|---|
| | Mae hon yn gymhariaeth eithaf rhyfedd. Mae'n ymddangos fel petai'r crwca'n rhan o'r parc ac mae'n ymddangos fel petai bron wedi dod yn rhan o'r dirwedd. Hefyd mae'n ei gysylltu â byd natur a delweddaeth natur. |
| 'Like the birds he came early' | |

Mae'r crwca'n cael ei gyflwyno fel person unig. Nodwch yr holl eiriau/ymadroddion yn y gerdd sy'n dangos hyn: